**PWYLLGOR:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**DYDDIAD:** **21 TACHWEDD 2011**

**TEITL:** **I DDIDDYMU'R PARTHAU HACNI O FEWN GWYNEDD**

**PWRPAS:** **ER PENDERFYNIAD**

**AWDUR:** **PENNAETH Y GWASANAETH RHEOLEIDDIO**

## 1. CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod olaf o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 19 Medi 2011:

**PENDERFYNWYD hysbysu'r diwydiant bydd y tri pharth hacni yn cael eu diddymu a bydd Gwynedd yn gweithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 ymlaen.**

1.2 Mae'r diwydiant wedi cael ei hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod y penderfyniad i ddiddymu parthau ddim wedi cael ei dderbyn yn dda gan rhai aelodau o'r diwydiant.

## 2. GWEITHREDU UN PARTH CERBYD HACNI AR DRAWS GWYNEDD

2.1 I weithredu'r penderfyniad y Pwyllgor bydd Gwynedd yn gweithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012, rhaid derbyn cymeradwyaeth i newid Amodau'r Drwydded a Thelerau Trwydded Cerbydau Hacni.

2.2 Bydd rhaid dileu

a) Yr Amod Cyffredinol (d) o Amodau'r Drwydded, sef

> 'Cedwir PARTHAU Arfon, Dwyfor a Meirionydd fel y maent.'

b) Y cymal ar y Drwydded Cerbyd Hacni sydd yn gosod cyfyngiad ar weithio tu allan i'r parth Ardal, sef

> 'i fod ar gael i'w hurio o fewn ardal xxxx o'r cyngor'

lle mae 'Arfon', 'Dwyfor' neu 'Meirionydd' yn cael ei fewnosod yn le xxxx.

Effaith dileu'r Amod Drwydded a'r Cymal Trwydded hyn bydd i ganiatáu Cerbydau Hacni trwyddedig weithredu ar draws Gwynedd gyfan.

Byddai'r newid hwn yn datrys y sefyllfa anghyson sy'n codi lle y gall gyrrwr Hacni trwyddedig weithredu ym mhob Ardal ond rhaid defnyddio cerbydau sydd wedi eu trwyddedu yn yr ardal berthnasol. Byddai hefyd yn helpu lleddfu'r prinder Cerbydau Hacni a all godi mewn un Ardal pryd cynhelid digwyddiad mawr oherwydd y bydd Cerbydau Hacni o rywle yng Ngwynedd ar gael i'w hurio yn y digwyddiad.

Fodd bynnag, efallai y bydd y Pwyllgor yn penderfynu, yng ngoleuni'r gwrthwynebiad i'r penderfyniad i ddiddymu'r parthau gan rai aelodau o'r diwydiant, gohirio'r newid er mwyn ymgynghori ar yr awgrym.

**Penderfyniad 1**

**A yw'r Pwyllgor yn dymuno bwrw ymlaen a diddymu'r cyfyngiad presennol o ran cerbydau sy'n gweithredu ar draws Gwynedd ar 1 Ionawr 2012?**

**Neu**

**A yw'r Pwyllgor yn dymuno gohirio gweithredu ei benderfyniad i ganiatáu mwy o amser ar gyfer ymgynghori â'r diwydiant i ddigwydd?**

2.2 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bwrw ymlaen a diddymu'r cyfyngiad presennol o ran cerbydau sy'n gweithredu ar draws Gwynedd ar 1 Ionawr 2012 (gweler Penderfyniad 1 uchod), bydd angen ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni y tair Ardal.

Mae Arfon, Dwyfor a Meirionydd yn rhannu'r un Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni heblaw am yr amodau arbennig ychwanegol sydd yn berthnasol i Ardal Arfon, sef

i. Bod y nifer o drwyddedau yn cael eu cyfyngu i 98 ac eithrio trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n llai na tair blwydd oed ac sy'n addas i'r anabl drwy ganiatáu llwytho cadair olwyn o ochr y cerbyd.
ii. Mewn achos le fydd unrhyw un o'r 98 trwydded bresennol gael ei hildio neu ei diddymu, bydd y drwydded ond yn cael ei hail-ganiatáu i gerbyd sydd yn llai na tair blwydd oed ac sy'n addas i'r anabl drwy ganiatáu llwytho cadair olwyn o ochr y cerbyd.

Dylid nodi yn Arfon, gall y 98 trwydded bresennol gael ei drosglwyddo gan y trwyddedai presennol i gerbyd newydd sydd ddim wedi ei haddasu ar gyfer mynediad i'r anabl. Gall trwydded cerbyd presennol sydd wedi'i eithrio rhag gofynion mynediad i'r anabl (h.y. un o'r 98 presennol) hefyd gael ei drosglwyddo gan y trwyddedai i berson arall, sy'n 'etifeddu hawliau taid' y drwydded honno ac felly ddim angen darparu cerbyd gyda mynediad i'r anabl.

Gall y Pwyllgor benderfynu **ddileu**'r amodau trwydded arbennig sydd ar hyn o bryd ond yn berthnasol yn Arfon. O ystyried telerau'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gall penderfyniad y Pwyllgor gael ei herio os yw'n ceisio tynnu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau ar gyfer pobl anabl. Ni argymhellir bod y Pwyllgor yn bwrw ymlaen â dileu'r ddarpariaeth hon.

Fel arall, gall y Pwyllgor benderfynu **ymestyn** yr amod trwydded arbennig bresennol sy'n cyfyngu ar roi trwyddedau ychwanegol ac ail caniatáu unrhyw un o'r trwyddedau presennol sydd wedi eu hildio neu wedi ei dirymu i gerbydau sy'n addas i'r anabl, sydd ond yn bresennol ar y funud yn Arfon, a'i ymestyn i weddill Gwynedd. Byddai hyn yn ymestyn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau ar gyfer pobl anabl ar draws pob rhan o'r Sir. Serch hynny, byddai'n gosod y gost ychwanegol o ddarparu cerbyd a addaswyd ar gyfer mynediad i bobl anabl ar bersonau sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant oni bai eu bod yn gallu prynu cerbyd trwyddedig gan ddeiliad trwydded bresennol ac yn cael y drwydded wedi ei throsglwyddo iddynt.

Trydydd dewis yw **cadw**'r gwahaniaethau Ardal sydd ar hyn o bryd yn Amodau'r Drwydded. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar y diwydiant nac yn cael gwared ar y darpariaethau mewn perthynas â cherbydau mynediad i bobl anabl, ond na fyddai er cadw o fewn ysbryd y penderfyniad i ddiddymu'r parthau. Argymhellir nad yw'r Pwyllgor yn bwrw ymlaen i ddileu'r ddarpariaeth hon.

**Penderfyniad 2**

**A yw'r Pwyllgor yn dymuno bwrw ymlaen â diddymu'r cyfyngiadau presennol yn ymwneud a gwaharddiad ar ganiatáu trwyddedau ychwanegol, a'r ail-caniatau o unrhyw un o'r 98 trwydded bresennol os rydynt yn cael eu hildio neu wedi'i dirymu, yn Arfon i gerbydau (oni bai eu bod yn llai na tair blwydd oed ac yn caniatáu mynediad ochr i gadair olwyn) ar 31 Rhagfyr 2012?**

**Neu**

**A yw'r Pwyllgor yn dymuno ymestyn y cyfyngiad presennol ynglŷn â'r gwaharddiad ar ganiatáu trwyddedau ychwanegol, a'r ail-caniatau o unrhyw un o'r 98 trwydded bresennol sy'n cael ei hildio neu wedi'i dirymu, yn Arfon i gerbydau (oni bai eu bod yn llai na tair oed ac yn addas i'r anabl) i drwyddedau a ganiateir yn Nwyfor a Meirionnydd o 1 Ionawr 2012 ymlaen?**

**Neu**

**A yw'r Pwyllgor yn dymuno cadw'r cyfyngiad presennol ynglŷn â'r gwaharddiad ar ganiatáu trwyddedau ychwanegol, ac ail-caniatau unrhyw un o'r 98 trwydded bresennol sy'n neu wedi'i dirymu, yn Arfon i gerbydau (oni bai eu bod yn llai na tair oed ac yn addas i'r anabl) nes penderfynir yn wahanol?**

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor yn gohirio diddymu'r Parthau er mwyn ymgynghori gyda'r diwydiant ac i dderbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad.